**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/3618/13

David Rees AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

11 Tachwedd 2013

Annwyl David

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi 2013 yn gofyn am y newyddion diweddaraf ynghylch darparu gwasanaethau gan y Ganolfan Imiwneiddio Plant yng Nghymru.

Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru (AIC) wedi cysylltu â'r Ganolfan Imiwneiddio Plant (CIC) ac mae'r cwmni wedi nodi nad oes ganddo unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu ei wasanaethau yng Nghymru eto. Pe bai'r cwmni yn penderfynu cyflenwi gwasanaethau brechu yng Nghymru yn y dyfodol mae AIC wedi dweud wrth CIC y byddai angen i'r cwmni gysylltu ag AIC cyn gwneud hynny.

Mae AIC yn parhau i weithio gyda Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn cau'r bwlch cyfreithiol sy'n caniatáu i glinigau "unwaith yn unig" o'r fath ymarfer yng Nghymru heb gael eu cofrestru. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau cyn y Nadolig eleni. Rhoddaf newyddion pellach i'r Pwyllgor pan fydd y dewisiadau wedi cael eu hystyried.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*